



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 20.09.2017

Taith newydd

Mae hefyd yn ddechrau newydd sbon i dros 140 o ddisgyblion o flwyddyn 7 sy'n dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Bro Myrddin. Rwy'n siŵr y byddant yn ymgartrefu'n fuan iawn yn ein plith. Estynnwn yr un croeso i Mr Dyfed James Pennaeth yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Miss Ceris James i'r adran Gymraeg a Mr Carwyn Bebb i'r Adran ADY. Dymuniadau gorau i bawb.

Prif swyddogion 2017-2018

Llongyfarchiadau i Garmon Dyfri a Mared ar gael ei hethol yn brif fachgen a phrif ferch. Yn eu cynorthwyo bydd Aled Lloyd, Rhys Owain Evans, Caryl Jones, Ceris Medi James a Siân Elin Rees. Pob dymuniad da gyda'r cyfrifoldebau newydd.

Gwobr Mentoriaid gan y Principality

Llongyfarchiadau i Carwyn Bebb ac Aled Lloyd am gyfraniad arbennig fel mentoriaid 2016-2017. Cawsom docynnau i gêm Rygbi fel gwobr a thystysgrif gan y Principality. Da iawn chi am eich gwaith caled yn ystod y flwyddyn.



Priodas ym mlwyddyn 9!

Dydd Gwener 30ain o Orffennaf teithiodd dau fws llawn o ddisgyblion blwyddyn 9 i Eglwys San Pedr, Caerfyrddin ar gyfer achlysur arbennig iawn, sef ffug-briodas Carrie Davies a Joseff Rhys Elis, dau o ddisgyblion blwyddyn 9. Trefnwyd y briodas fel rhan o'r cwrs Astudiaethau Crefyddol. Roedd y disgyblion i gyd wedi paratoi yn drylwyr ar gyfer y diwrnod mawr a phawb wedi gwisgo yn smart iawn. Teithiodd y briodferch ai thad i'r briodas yng nghamper fan Mr Mainwaring o'r Adran Gelf ac fe gafodd y gwesteion eu croesawu i'r Eglwys gan y tywyswyr, Deian Morgan a Nicholas Evans. Rhoddwyd y briodferch i'w phriodi gan Joseff Morse, a chynorthwywyd y priodfab gan y gwas priodas Scott Davies. Cafodd y briodferch ei chynorthwyo gan res o forwynion, sef Cerian James, Carys Davies, Rachel Howells ac Hanna Morgan. Darllenwyd yr emynau gan Buddug Phillips a Caitlin Mackay ac arweiniwyd y weddi gan Lowri Wyn Powell. Cafwyd darlleniad gan Iwan Thomas a Cai Phillips. Roedd Owen Cray yn cyfeilio a chafwyd eitem gerddorol gan Hanna Medi a Catrin Owen. Arweiniwyd y gwasanaeth priodas gan y Ficer Leigh Richardson. Yn dilyn y gwasanaeth, aeth y gwesteion i westy'r Llwyn Iorwg ar gyfer y wledd briodas a thynnu mwy o luniau. Bu'r achlysur yn un cofiadwy iawn i bawb.

Taith yr Adran Gymraeg i'r gogledd

Ein tro ni ydoedd eleni i ymweld ag ardaloedd hanesyddol Gogledd Cymru. Yr ymweliad cyntaf oedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru lle gwelsom ffacsimiliau o



weithiau Hedd Wyn, Taliesin ac Aneirin. Tawelwch llethol a lanwodd yr ystafell ddarllen. Gwahanol iawn i lyfrgell yr ysgol! Ein hymweliad nesaf oedd Canolfan Grefftau Corris lle aethom i fyd y chwedlau tanddaearol yn Labrinth y Brenin Arthur: Nid y lle i'r tall!!! Yna, aethom i'r prif atyniad, sef 'Yr Ysgwrn'. Cawsom groeso cynnes gan Gerald, nai Hedd Wyn, a braf oedd gweld yr hyn a astudiom yn y

ffilm o flaen ein llygaid yn y ffermdy ac yn Nhrawsfynydd hefyd. Ar ôl cael pryd o fwyd yng Nglyntwrog gwnaethom ein hunain yn gartrefol yn Nhŷ Lledr yn Nolwyddelan. Gyda'r bore, cerddom o amgylch Rhyd-ddu er mwyn

gwerthfawrogi milltir sgwâr TH Parry-Williams. Syndod o'r mwyaf oedd profi'r holl hanes a oedd yn Eglwys Llanrwst: Un o drysorau hanes Cymru'n sicr! Cyn dechrau ein ffordd yn ôl adref, cawsom bryd o fwyd ym Metws y Coed ar ôl twrio a chwilio drwy siopau'r dre. Wedi'r daith flinedig, dychwelom yn ôl i'r de'n ddiogel ac mae ein diolch yn fawr i Mrs Helen Evans a Mrs Eirlys Thomas am drefnu'r daith.

Adroddiad gan Daniel O'Callaghan

MAES B BACH 2017

Ar ddiwedd tymor yr Haf trefnwyd diwrnod arbennig gan Bwyllgor Cymreictod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin (Project4 Cymraeg) a'r Chweched Dosbarth ar gaeau'r ysgol i ddathlu Cymreictod mewn steil. Roedd yr haul yn gwenu a phawb wrth eu boddau gyda'r stondinau amrywiol. Roedd gemau niferus gan y llysoedd ac i ddiddanu'r disgyblion a'r staff i gyd, ymweliad gan yr anfarwol Mr Urdd ei hun ac adloniant gan "Jaffro" a'r "Welsh Whisperer". Cafwyd ganddynt wledd o hiwmor a cherddoriaeth wych. Y ddau seren yn gyn ddisgyblion i'r ysgol. Cafwyd diwrnod bendigedig a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

